## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.**

Mae'r asesiad hwn o'r effaith ar hawliau plant yn gwerthuso effaith y cynnig i gyflwyno Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth (y Cod). Caiff y Cod ei osod gerbron y Senedd ym mis Mawrth 2021 a bydd y broses o roi'r Cod ar waith yn dechrau o fis Medi 2021.

Un o'r meysydd sydd wedi'i ystyried yn fanwl mewn perthynas â'r cod yw'r effaith ar bobl ag anableddau (gan gynnwys plant a phobl ifanc) ac mae hyn hefyd yn cael ei nodi yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Nid ystyrir y bydd y Cod yn cael effaith andwyol mewn perthynas â phlant na phobl ifanc ag anableddau yn gyffredinol a bydd yn cael effaith fuddiol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc awtistig.

Datblygwyd y Cod mewn ymateb i Fil Awtistiaeth (Cymru)[1], sef Bil Aelod a gyflwynwyd i'r Senedd yn 2018. Yn ystod y broses o Graffu ar y Bil yng Nghyfnod Un, darparwyd tystiolaeth nad oedd gwasanaethau awtistiaeth yn diwallu anghenion y rhai a oedd yn ceisio asesiad neu gymorth pan gafwyd diagnosis. Nid oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil am y gallai ei nodau gael eu cyflawni drwy ddeddfwriaeth bresennol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006. Pan wrthodwyd y Bil ar ddiwedd y broses Graffu yng Nghyfnod Un yn 2019, roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar anghenion pobl awtistig drwy gyhoeddi Cod Ymarfer statudol o dan y ddeddfwriaeth bresennol a fyddai'n atgyfnerthu ac yn egluro dyletswyddau presennol sydd wedi'u gosod ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

Mae'r Cod yn nodi'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a swyddogaethau gwasanaethau iechyd byrddau iechyd lleol a chyrff ymddiriedolaethau'r GIG, sy'n ymwneud ag ystod ac ansawdd y gwasanaethau a ddylai fod ar gael yn eu hardaloedd lleol i blant, pobl ifanc ac oedolion awtistig a'u teuluoedd a/neu eu gofalwyr. Mae'r Cod yn atgyfnerthu'r fframweithiau cyfreithiol sydd eisoes ar waith drwy nodi darpariaethau ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol arfer eu priod swyddogaethau yn unol â gofynion yn y Cod wrth drefnu neu ddarparu gwasanaethau i bobl awtistig (gan gynnwys plant) ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth.

Bydd y Cod yn ceisio sicrhau gwelliannau o ran y ffordd y darperir gwasanaethau awtistiaeth drwy fynnu cysondeb a llwybrau clir i gael asesiad a chymorth, nodi anghenion hyfforddiant a darparu hyfforddiant addas ym maes awtistiaeth i wahanol broffesiynau. Mae'r Cod hefyd yn disgrifio sut y dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol partner sicrhau bod awtistiaeth yn ddigon gweladwy yn eu gwaith a bod seilwaith awtistiaeth ar waith i gynllunio, darparu a monitro gwasanaethau a darparu data i lywio gwelliant parhaus.

[1] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=19233

Mae'r Cod, wrth geisio gwella mynediad at wasanaethau asesu, diagnosis a chymorth i blant a phobl ifanc, yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff gydymffurfio â safonau llwybrau cenedlaethol fel y'u datblygwyd gan Raglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP)[2] a safonau amseroedd aros cenedlaethol. Cydnabuwyd bod problemau yn gysylltiedig ag amseroedd aros hir ar gyfer asesiadau mewn byrddau iechyd yng Nghymru. Bu safon amser aros o 26 wythnos rhwng atgyfeirio a'r apwyntiad diagnosis cyntaf ar waith ers 2018. Fodd bynnag, nododd adolygiad cynnar yn 2019[3] nad yw'r dull o gasglu data yn gyson ledled Cymru ac, yn fwy diweddar, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar amseroedd aros. Bydd y Cod yn sbardun i wella cydymffurfiaeth â safonau a phrosesau casglu a chofnodi data.

Mae'r posibilrwydd y gallai'r Cod gael effeithiau negyddol hefyd wedi'i ystyried. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cod ymarfer drafft rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2020 ac, er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch i gynulleidfa eang (gan gynnwys plant a phobl ifanc, cyhoeddwyd fersiwn Hawdd i'w Darllen hefyd. Yn ei hymateb i'r ymgynghoriad, cododd Comisiynydd Plant Cymru bryderon ynghylch effeithiau negyddol anfwriadol posibl ar blant â chyflyrau niwroddatblygiadol eraill neu'r rhai y mae angen cymorth arnynt ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer diagnosis. Ceisiodd sicrwydd hefyd y ceisir barn plant a phobl ifanc ac y gwrandewir arni.

Mewn ymateb i sylwadau'r Comisiynydd Plant, ni ddylai'r broses o gyflwyno'r Cod roi unrhyw blentyn na pherson ifanc dan anfantais. Mae'r gwaith o ddatblygu polisi mewn perthynas â gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant, sy'n cynnwys gwasanaethau awtistiaeth i blant a phobl ifanc, yn mynd rhagddo fel rhan o Raglen 2 Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP2). Mae'r rhaglen yn gweithio i wella'r gwasanaethau a chymorth llesiant emosiynol ac iechyd meddwl sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar dri maes, sef:

- Cymorth Cynnar a Chefnogaeth Uwch
- Gwasanaethau Niwroddatblygiadol
- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Mae'r rhaglen yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys y Comisiynydd Plant, Senedd Ieuenctid Cymru, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Chynghorau Ieuenctid er mwyn sicrhau ymgysylltu a chyd-gynhyrchu, gan wneud yn siŵr y gwrandewir ar farn plant a phobl ifanc ac y caiff ei hystyried.

Dywed y maes gwaith niwroddatblygiadol – Gweledigaeth ar gyfer cymorth a gwasanaethau niwroddatblygiadol yng Nghymru[4]:

---

[2] https://collaborative.nhs.wales/networks/wales-mental-health-network/together-for-children-and-young-people-2/resources-links/resources-and-links/t4cyp-2-programme-overview-2020-2022-v0-5-pdf/

[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-09/astudiaeth-gwmpasu-alinio-datblygu-gwasanaethau-awtistiaeth-niwroddatblygiadol.pdf

[4] https://collaborative.nhs.wales/networks/wales-mental-health-network/together-for-children-and-young-people-2/resources-links/resources-and-links/t4cyp-2-programme-neurodevelopmental-support-amp-services-final-english-pdf/

> *Our vision is to take a holistic, children's rights approach to providing both NHS services and wider support to a range of neurodevelopmental conditions and co-occurring needs, including attention deficit hyperactivity disorder (ADHD) and autism.*
>
> *There is an opportunity to create a whole system approach that seeks to meet current and future needs by connecting and maximising resources across education, health and social care.*

Mae'r Cod yn nodi'n glir y dylai asesiadau, gwasanaethau a chymorth i bobl awtistig, gan gynnwys plant ac oedolion, fabwysiadu dull gweithredu cyfannol, y dylai canlyniadau fod yn seiliedig ar anghenion a nodwyd ac na ddylai cymorth ddibynnu ar b'un a wneir diagnosis o awtistiaeth ai peidio.  Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i lwybrau gael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n cwblhau'r llwybr asesu ond nad ydynt yn cael diagnosis yn parhau i gael cymorth.

Caiff effaith y Cod Ymarfer ei monitro o'r adeg y caiff ei roi ar waith ym mis Medi 2021 a bydd gwerthusiad annibynnol yn dechrau ar ôl iddo fod ar waith am ddwy flynedd.  Yn 2021, mae adolygiad o gapasiti gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r galw amdanynt yn cael ei gynnal, gan gynnwys y gwasanaethau sydd ar gael i blant a phobl ifanc, a bydd rhan o'r adolygiad hwn yn dangos lle mae bylchau o ran darparu gwasanaethau, a fydd yn llywio'r gwerthusiad sydd i'w gynnal yn y dyfodol.

## 2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Mae'r Tabl isod yn nodi pa erthyglau o'r Confensiwn sydd fwyaf perthnasol i'r Cod. Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn yr erthyglau hyn wrth ddatblygu'r cynigion deddfwriaethol.

| **Erthygl** | **Cod Ymarfer** |
|---|---|
| Erthygl 1<br><br>Diffiniad o Blentyn | At ddibenion y Cod, mae plentyn yn dod yn oedolyn pan fydd yn cyrraedd 18 oed.<br><br>Mae'r term 'pobl' yn y cod yn cyfeirio at blant, pobl ifanc ac oedolion. Mae'r Cod yn cydnabod pob unigolyn, waeth beth fo'i oedran.  Mewn rhai meysydd, cyfeiriwyd yn benodol at blant a phobl ifanc lle roedd angen gwneud hynny am fod y Cod yn cydnabod bod hawliau ac anghenion plant yn debygol o fod ychydig yn wahanol i hawliau ac anghenion oedolion. |
| Erthygl 2<br><br>Dim gwahaniaethu | Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau clir ar gyrff yn y sector cyhoeddus i atal gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb i bobl â Nodweddion Gwarchodedig penodol a chyfeirir at hyn yn y Cod.  Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gynnal hefyd. |

| | |
|---|---|
| Erthygl 3<br><br>Budd pennaf y plentyn | Mae'r cod yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau iechyd, gofal a chymorth gael eu cyflawni er budd pennaf plant gyda'r nod cyffredinol o wella canlyniadau llesiant plant.<br><br>Mae'r cod yn gymwys i bob ymarferydd sy'n gweithio i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, yn enwedig y rhai sy'n delio â'r cyhoedd, er mwyn sicrhau y gallant wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ganlyniadau iechyd a llesiant plant a phobl ifanc awtistig. |
| Erthygl 4<br><br>Rhoi'r Confensiwn ar waith | Mae'r Cod yn cynnwys egwyddorion cyffredinol y Confensiwn mewn perthynas â phwy sy'n cael ei warchod a chadarnhad y dylai pob sefydliad perthnasol weithio tuag at sicrhau budd pennaf plant a rhyddid i rieni. |
| Erthygl 5<br><br>Canllawiau i rieni a galluoedd plentyn sy'n datblygu | Mae'r Cod yn sicrhau bod yn rhaid i bob asesiad diagnostig o awtistiaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gynnwys (er enghraifft) gwestiynau manwl am bryderon rhieni a gofalwyr ac, os yw'n briodol, bryderon y plentyn neu'r person ifanc a manylion am brofiadau'r plentyn neu'r person ifanc o fywyd yn y cartref, addysg a gofal cymdeithasol.<br><br>Mae'r Cod yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu proffil o gryfderau, sgiliau, gwahaniaethau a rhwystrau'r plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys: gallu a dull dysgu, sgiliau academaidd, lleferydd, iaith a chyfathrebu, sgiliau echddygol manwl a bras, ymddygiad ymaddasol (gan gynnwys sgiliau hunangymorth), iechyd meddwl ac iechyd emosiynol (gan gynnwys hunan-barch), iechyd corfforol a maeth, sensitifrwydd synhwyrol ac ymddygiad sy'n debygol o effeithio ar weithredu a chyfranogiad cymdeithasol o ddydd i ddydd.<br><br>Dylid defnyddio'r proffil i lunio cynllun personol, gan ystyried y cyd-destun teuluol ac addysgol. Dylid cyfleu canfyddiadau'r asesiad i'r rhiant neu'r gofalwr ac, os yw'n briodol, y plentyn neu'r person ifanc. |
| Erthygl 6<br><br>Bywyd, goroesi a datblygu | Mae cael asesiad a diagnosis cynnar yn allweddol i ddiwallu anghenion datblygiadol plant a phobl ifanc a all fod yn awtistig. Mae'r Cod yn darparu bod yn rhaid i asesiad gael ei gynnal a diagnosis gael ei wneud o fewn terfynau amser a nodir mewn canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac i lwybrau cenedlaethol gael eu dilyn. |
| Erthygl 12<br><br>Parch at farn y plentyn | Lluniwyd fersiwn Hawdd i'w Darllen o'r ymgynghoriad ar y cod er mwyn galluogi amrywiaeth eang o bobl (gan gynnwys plant a phobl ifanc) i roi eu barn ar y cod drafft. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r Cod yn darparu ar gyfer gwasanaethau sy'n cynnig asesiadau o awtistiaeth i blant, pobl ifanc ac oedolion ac yn nodi bod yn rhaid i ymarferwyr wrando ar farn pobl ifanc, oedolion, teuluoedd a/neu ofalwr a'i hystyried (e.e. Adran 1, 5(iv)).<br><br>Caiff effaith y Cod Ymarfer ei monitro o'r adeg y caiff ei roi ar waith ym mis Medi 2021 a bydd gwerthusiad annibynnol yn dechrau ar ôl iddo fod ar waith am ddwy flynedd. Yn 2021, mae adolygiad o gapasiti gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r galw amdanynt yn cael ei gynnal a bydd rhan ohono yn dangos lle mae bylchau o ran darparu gwasanaethau, a fydd yn llywio'r gwerthusiad sydd i'w gynnal yn y dyfodol. |
| Erthygl 16<br><br>Yr hawl i breifatrwydd | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006 yn nodi pa ddata y dylid eu casglu a sut y dylid eu cyhoeddi. Bwriedir i hyn sicrhau dull gweithredu cyson a darparu mesurau diogelwch cliriach er mwyn sicrhau nad amherir at breifatrwydd personol unigolyn.<br><br>Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn casglu data lefel uchel ar awtistiaeth fel rhan o ymarferion casglu data ehangach. |
| Erthygl 17<br><br>Cael gwybodaeth gan y cyfryngau | Mae cymorth ac adnoddau ar gael i blant a phobl ifanc ar wefan y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol.<br><br>www.autismwales.org |
| Erthygl 23<br><br>Plant ag anabledd | Bwriedir i'r Cod fynd i'r afael ag anghenion pobl o bob oedran sydd ag awtistiaeth yng Nghymru mewn ffordd gadarnhaol. Bydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol sylweddol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag awtistiaeth. Mae'r cod hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal asesiad cyfannol ac ystyried cyflyrau eraill sy'n cydfodoli a all gael effaith ar y plentyn neu'r person ifanc. |
| Erthygl 24<br><br>Iechyd a Gwasanaethau Iechyd | Bydd y Cod yn ei gwneud yn ofynnol i lwybr clir at asesiad a diagnosis gael ei sefydlu, er mwyn sicrhau, ni waeth ble mae unigolyn yn byw na beth fo'i oedran, y gall gael asesiad diagnostig mewn modd amserol Bydd angen ystyried cyflyrau sy'n cyd-fodoli hefyd.<br><br>Mae'r cod hefyd yn darparu bod angen cwblhau asesiadau o anghenion gofal a chymorth unigolyn ag awtistiaeth. |
| Erthygl 27 | Nid yw'r Cod yn ymwneud yn uniongyrchol â safonau byw. Ei effaith gyffredinol yw hwyluso mynediad at wasanaethau a ddarperir ar gyfer pobl ag awtistiaeth a'u gwella, a fydd yn galluogi plant awtistig i gyflawni |

| | |
|---|---|
| Safon byw ddigonol | eu potensial yn well a chael safon byw sy'n cyfateb i safon byw unigolion nad ydynt yn awtistig. |
| Erthygl 28<br><br>Hawl i addysg<br><br>Erthygl 29<br><br>Nodau addysg | Gwneir y Cod o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006. Fodd bynnag, mae'n cyd-fynd â rhaglen diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol Llywodraeth Cymru a bydd yn hyrwyddo addysg gynhwysol drwy ei gwneud yn ofynnol i anghenion hyfforddi gael eu dadansoddi ac i'r hyfforddiant a roddir i athrawon ac aelodau eraill o staff mewn lleoliadau addysg gefnogi plant a phobl ifanc ag awtistiaeth, sy'n cynnwys datblygiad proffesiynol ôl-gofrestru.<br><br>Mae rhaglen diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol, a ategir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn cyflwyno system newydd sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc y mae angen cymorth arno, gan gynnwys dysgwyr awtistig, yn cael cymorth a gynlluniwyd yn briodol ac a ddiogelir, ac y bydd ganddynt gynllun statudol â hawliau cyfartal i apelio. Mae'r Ddeddf yn rhoi dysgwyr wrth wraidd y broses gwneud penderfyniadau.  Er ei bod hefyd yn ymestyn i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc awtistig, nid yw'n gwahaniaethu rhwng anghenion dysgu ychwanegol gwahanol am ei bod yn ceisio sicrhau bod pob angen yn cael ei ddiwallu'n deg ac yn gynhwysfawr. |
| Erthygl 30<br><br>Plant o grwpiau lleiafrifol neu frodorol | Mae'r Cod yn hyrwyddo Safonau'r Gymraeg ac yn nodi bod yn rhaid i wybodaeth a chymorth gael eu darparu mewn iaith syml gan ystyried iaith gyntaf, ethnigrwydd a gwahaniaethau diwylliannol pobl. |
| Erthygl 31<br><br>Hamdden, chwarae a diwylliant | Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol ac artistig.  Fodd bynnag, gall dealltwriaeth pobl eraill o awtistiaeth gyfyngu ar y graddau y gall plentyn ag awtistiaeth ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.<br><br>Mae'r Cod yn mynd i'r afael â hyn drwy nodi bod angen darparu hyfforddiant priodol i weithwyr proffesiynol allweddol mewn perthynas â chefnogi pobl awtistig, gan gynnwys plant a phobl ifanc. .<br><br>Bydd plant yn cael cymorth i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt a chânt eu hannog i gyfranogi yn eu cymuned.  Dylai awdurdodau lleol asesu a sicrhau bod gwasanaethau, lle y bo'n bosibl, yn ychwanegu gwerth, yn ogystal â chyflawni canlyniadau llesiant personol plant. |

| | |
|---|---|
| Erthygl 40<br><br>Cyfiawnder ieuenctid | Er nad ymdrinnir â hyn yn benodol yn y Cod, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o arwyddion awtistiaeth am ei bod yn bosibl na nad yw llawer o bobl y mae'r system cyfiawnder troseddol yn dod i gysylltiad â nhw yn ymwybodol mai dyna pam y maent yn cael anawsterau. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio canllaw y bwriedir iddo ddarparu gwybodaeth i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn rhannau gwahanol o'r System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, am anhwylderau ar y sbectrwm awtistig.<br><br>http://www.wales.nhs.uk/documents/110127asdcriminaljustpraccy.pdf |